

Eneinio Iesu yn Bethania

Mathew 26: 6-13; Marc 14: 1-11; Ioan 12: 1-11



Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

Disgrifiad	Llun	Nodiadau
Mathew 26: 6-13; Marc 14: 1-11; Ioan 12: 1-11	A close-up photograph of a person's hands anointing Jesus' forehead with oil. The text 'THE EASTER STORY JESUS IS ANOINTED' and 'www.freebibleimages.org' are overlaid on the image. In the top right corner, it lists 'Matthew 26 v 6-13', 'Mark 14 v 1-11', and 'John 12 v 1-11'.	
1 Cyrhaeddodd Iesu Bethania, lle roedd Lasarus yn byw (y dyn ddaeth Iesu ag e yn ôl yn fyw.) Roedd swper wedi ei drefnu i anrhydeddu Iesu yng ngartref dyn roedd pawb yn ei alw yn 'Simon y gwahanglwyf.'	A photograph showing Jesus sitting at a dinner table with several other people in a room with a lamp hanging from the ceiling.	
2 Roedd Lasarus yn bwyta wrth y bwrdd gyda Iesu a'i ddisgyblion.	A photograph showing Jesus and his disciples sitting around a table, eating and talking.	
3 Roedd Martha yn gweini.	A close-up photograph of a woman, identified as Martha, looking upwards with a thoughtful expression.	

-
- 4 Daeth Mair i mewn gyda jar hanner litr o nard pur, oedd yn bersawr drud iawn.



-
- 5 Tywalltodd y persawr ar draed Iesu ac wedyn sychu ei draed gyda'i gwallt. Roedd arogl y persawr i'w glywed drwy'r tŷ i gyd.



-
- 6 Ond yna dyma Jwdas Iscariot (y disgybl oedd yn mynd i fradychu Iesu yn nes ymlaen) yn protestio, "Roedd y persawr yna'n werth ffortiwn! Dylid bod wedi ei werthu, a rhoi'r arian i bobl dlawd!"



-
- 7 Ond doedd e ddim wir yn poeni am y tlodion. Beth oedd tu ôl i'w eiriau oedd y ffaith ei fod yn lleidr. Roedd Iesu a'i ddisgyblion yn rhannu un pwrs, a Jwdas oedd yn gyfrifol amdano, ond byddai'n arfer helpu ei hun i'r arian.



-
- 8 "Gad lonydd iddi," meddai Iesu. "Mae hi wedi cadw beth sydd ganddi ar gyfer y diwrnod pan fydda i'n cael fy nghladdu."



-
- 9 "Bydd pobl dlawd o gwmpas i chi eu helpu nhw bob amser, ond fydda i ddim yma bob amser."



-
- 10 Credwch chi fi, ble bynnag fydd y newyddion da yn cael ei gyhoeddi drwy'r byd i gyd, bydd pobl yn cofio beth wnaeth y wraig yma hefyd."



-
- 11 Roedd tyrfa fawr o bobl Jwdea wedi darganfod fod Iesu yn Bethania. Dyma nhw'n mynd yno, ddim yn unig i weld Iesu, ond hefyd i weld Lasarus yr un ddaeth Iesu ag e yn ôl yn fyw.



-
- 12 Ar ôl i hyn ddigwydd aeth Jwdas Iscariot, oedd yn un o'r deuddeg disgybl, at y prif offeiriaid i fradychu Iesu iddyn nhw. Roedden nhw wrth eu bodd pan glywon nhw beth oedd ganddo i'w ddweud, a dyma nhw'n addo rhoi arian iddo.



-
- 13 Cyfieithwyd gan www.beibl.net



THE WORD IN PICTURES

www.freebibleimages.org

